**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Tai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref PO/JB/00273/24

John Griffiths MS
Chair, Housing and Local Government Committee

7 Hydref 2024

Annwyl John

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ei Adroddiad ar y Farchnad Adeiladu Tai ym Mhrydain Fawr. Prif ganfyddiad y CMA oedd bod y system gynllunio gymhleth ac anrhagweladwy, ynghyd â chyfyngiadau datblygiadau preifat hapfasnachol, wedi bod yn gyfrifol am y diffyg darpariaeth parhaus o gartrefi newydd. Cadarnhaodd yr astudiaeth bryderon sylweddol hefyd am gostau rheoli ystadau, gyda pherchnogion tai yn aml yn wynebu taliadau uchel ac aneglur am reoli cyfleusterau fel ffyrdd, draenio a mannau gwyrdd, ynghyd ag ansawdd gwael rhai tai newydd a welwyd gan y nifer cynyddol o adroddiadau manwl dros y deng mlynedd diwethaf.

Ar adeg cyhoeddi,agorodd CMA ymchwiliad newydd hefyd i'r amheuaeth o rannu gwybodaeth fasnachol sensitif gan adeiladwyr tai a allai fod yn dylanwadu ar safleoedd adeiladu a phrisiau cartrefi newydd. Rwy'n croesawu'r ymchwiliad hwn ac yn edrych ymlaen at ei ganfyddiadau.

O ran yr argymhellion a'r opsiynau i'r llywodraeth eu hystyried fel y maent yn berthnasol i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r CMA yn thematig, gan dderbyn yr argymhellion. Rwyf wedi cyflwyno ymateb llawn Llywodraeth Cymru yn Llyfrgell y Senedd er gwybodaeth i aelodau.

Bydd rhai argymhellion yn yr adroddiad yn dibynnu ar gamau i'w cymryd gan Lywodraeth y DU mewn cydweithrediad â'r llywodraethau datganoledig ac rwyf wedi trafod sut y gellir gweithredu'r argymhellion hyn gyda Gweinidogion yn Llywodraethau'r DU a'r Alban yng Nghyngor Iwerddon Prydain ar 19 a 20 Medi. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid i sicrhau gwell bargen i brynwyr tai.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Tai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government